Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# RHEOLIADAU A GWEITHDREFN AMGYLCHIADAU ESGUSODOL 2026/2027

| **Teitl**: Rheoliadau Amgylchiadau Esgusodol | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad Cyhoeddi** | **Disgrifiad o'r Adolygiad** | **Awdur** | **Cymeradwywyd Gan a'r Dyddiad** | **Dyddiad Adolygu Nesaf** |
| Medi 2019 | Adolygiad Cyntaf | Siobhan Coakley | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd 1 Awst 2019 | Mehefin 2020 |
| Medi 2021 | Ail Rifyn | Siobhan Coakley/Sara Moggridge | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd Gorffennaf 2021 | Mehefin 2022 |
| Medi 2022 | Trydydd Rhifyn | Siobhan Coakley | | Mehefin 2024 |
| Medi 2024 | Pedwerydd Argraffiad | Jenny Smith | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd Gorffennaf 2024 | Mehefin 2025 |
| Medi 2024 | Pumed Fersiwn | Sharon Jones /Jenny Smith | Pwyllgor Sicrhau Ansawdd/Bwrdd Academaidd Medi 2024 | Mehefin 2025 |
| Medi 2025 | Chweched Rhifyn | Jenny Smith | Dim newidiadau | Mehefin 2026 |
| Medi 2026 | Seithfed Rhifyn | Jenny Smith | | Mehefin 2027 |

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# RHAN A: RHEOLIADAU

## ADRAN A1: CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r Rheoliadau a'r Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol yn berthnasol i:

- Myfyrwyr y mae eu hastudiaeth yn dod o dan y Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir, gan gynnwys ymgeiswyr Doethuriaeth Broffesiynol sy'n cwblhau'r elfen a addysgir o'u rhaglen ymchwil ôl-raddedig. Dylai pob myfyriwr ymchwil ôl-raddedig arall gyfeirio at y Rheoliadau Graddau Ymchwil Adnoddau | Prifysgol De Cymru.

- Myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC[1]). *(D.S. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at 'cyfadrannau' neu at 'cyfadran' yn golygu 'y Coleg'.)*

- Myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol gyda sefydliadau partner y Brifysgol.

- Myfyrwyr sy'n astudio ar leoliadau gwaith, neu sy'n ymgymryd â dysgu yn y gwaith.

- Prentisiaid. *(D.S. Dylid ystyried bod unrhyw gyfeiriad at 'myfyriwr/myfyrwyr' yn golygu 'prentis/prentisiaid' hefyd. Bydd gwybodaeth adeg derbyn a chanlyniad amgylchiadau esgusodol i brentisiaid yn cael ei darparu i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai), a fydd yn hysbysu cyflogwr y prentis.)*

1.2 Mae diffiniad y Brifysgol o amgylchiadau esgusodol fel a ganlyn:

*Mae amgylchiadau eithriadol yn annisgwyl a na ellir eu hosgoi, sydd y tu allan i reolaeth y myfyriwr, lle mae'r hamseru yn berthnasol i'r asesiad o dan sylw, ac sydd wedi eu hatal, neu a fydd yn eu hatal, rhag perfformio mewn asesiad ar y lefel a ddisgwylir neu sy'n ofynnol ohonynt.*

## ADRAN A2: EGWYDDORION CYFFREDINOL

### Egwyddorion a nodau allweddol

2.1 Egwyddor allweddol y rheoliadau a'r weithdrefn hon yw cynnig cydraddoldeb i bob myfyriwr yn gysylltiedig â'r asesiadau y mae gofyn iddynt ymgymryd â hwy yn ystod eu cwrs. Er mwyn rhoi'r egwyddor hon ar waith, **mae gan fyfyrwyr gyfrifoldeb i hysbysu'r Brifysgol am unrhyw amgylchiadau a all effeithio ar eu hasesiadau cyn gynted ag y byddant yn codi, gan ddefnyddio'r Ffurflen Cais am Amgylchiadau Esgusodol.**

2.2 Nod y Brifysgol yw sicrhau nad yw myfyriwr, sydd ag amgylchiadau esgusodol fel y'i diffinnir uchod, o ganlyniad, o dan anfantais annheg; ar yr un pryd, ni fydd myfyrwyr sydd ag amgylchiadau esgusodol yn derbyn mantais anghymesur dros fyfyrwyr eraill.

[1] Mae CBCDC yn rheoli eu gweithdrefnau amgylchiadau esgusodol eu hunain, ac yn gweithredu eu paneli eu hunain

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

2.3 Bydd hawliadau cymwys yn cael eu hystyried yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir, a bydd y penderfyniad yn seiliedig ar a yw'r amgylchiadau yn effeithio ar allu'r myfyriwr i astudio ai peidio. [2]

2.4 Er nad oes cyfyngiad ar y nifer o weithiau y gall myfyriwr gyflwyno hawliad neu hunanardystio, bydd hyn yn cael ei fonitro a gellir codi unrhyw bryderon trwy weithdrefnau eraill, gan gynnwys Cymorth i Astudio, Ymddygiad Myfyrwyr a Ffitrwydd i Ymarfer, fel sy'n briodol.

2.5 Os oes gan fyfyriwr Gynllun Cymorth Unigol ar waith yna byddwn yn caniatáu pum diwrnod gwaith arall i gyflwyno gwaith heb gosb; mae hyn yn cynnwys gwaith sy'n cael ei wneud fel atgyfeiriad neu waith a gyflwynwyd fel ymgais gyntaf yn ystod cyfnod ailsefyll (gweler adrannau 75 a 76 o'r Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir).

2.6 Mae'n ofynnol i fyfyrwyr fodloni canlyniadau dysgu eu cwrs a'u hasesiadau o hyd. Felly, os caiff asesiad neu arholiad ei ohirio tan ddyddiad diweddarach, gallai hyn effeithio ar eu dilyniant neu ddyddiad cwblhau cwrs.

2.7 Er y gall estyniadau i derfynau amser fod yn ddefnyddiol yn y tymor byr, gall estyniadau dro ar ôl tro greu ôl-groniad o waith, a all gael effaith negyddol ar ddilyniant. Lle bo modd, anogir myfyrwyr felly i anelu at gwblhau eu gwaith o fewn y terfynau amser arferol.

**Camau**

2.8 Mae tri cham i Weithdrefn Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol:

- ***Hawliadau syml*** – gwneir penderfyniadau yn unol â chanllawiau cyhoeddedig, a lle bo angen, bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu gan enwebai'r Pennaeth Profiad a Llwyddiant Myfyrwyr.

- ***Hawliadau cymhleth a hawliadau am gyflwr hir-sefydlog sy'n achosi symptomau yn rheolaidd*** - caiff hawliadau fel arfer eu cyfeirio at y Panel Amgylchiadau Eithriadol os oes unrhyw amheuon am ddilysrwydd hawliad, lle mae'r hawliad yn gymhleth neu os yw'r hawliad er mwyn derbyn yn gychwynnol cyflwr hir-sefydlog sy'n achosi symptomau yn rheolaidd. Os yw hawliad ynghlwm wrth gyflwr hir-sefydlog sy'n achosi symptomau yn rheolaidd, gall y Brifysgol, ar ddisgresiwn, wneud cais i gynnwys gweithiwr proffesiynol priodol (naill ai yn fewnol neu'n allanol), a all roi cyngor i'r Panel.

- ***Adolygu*** – mae gan fyfyrwyr hawl i gyflwyno cais am adolygiad o ganlyniad amgylchiadau esgusodol neu gais i ohirio astudiaethau ar yr amod eu bod yn bodloni seiliau penodol.

2.9 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth annibynnol i gefnogi hawliadau ar gyfer amgylchiadau esgusodol i egluro amgylchiadau/gofynion cymorth neu ar gyfer archwilio proses trwy sampl. Mae hyn ar gyfer hawliadau heblaw lle mae myfyriwr yn hunan-ardystio neu os oes gan y myfyriwr anabledd neu gyflwr hirdymor lle darparwyd tystiolaeth yn flaenorol. Cyfrifoldeb y myfyriwr yw darparu'r dystiolaeth hon mewn modd amserol pan ofynnir amdani. Gellir dirymu canlyniad hawliadau lle na ddarperir tystiolaeth ddilynol ar gais.

---

[2] Wrth ystyried a yw'r amgylchiadau wedi effeithio ar allu'r myfyriwr i astudio, gwneir hyn 'yn ôl yr hyn sy'n debygol'. Mae hyn yn golygu bod yr amgylchiadau'n fwy tebygol o fod wedi effeithio ar allu'r myfyriwr i astudio na pheidio.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**Polisi Ffit i Sefyll**

2.10 Mae'r Brifysgol yn gweithredu polisi Ffit i Sefyll sy'n golygu bod gofyn i'r holl fyfyrwyr, wrth gyflwyno'u hunain ar gyfer asesiadau[3], mewn person, ar-lein neu ar y safle, ddatgan eu bod yn addas i ymgymryd â'r asesiad. Pan fydd myfyriwr yn llofnodi'r daflen presenoldeb, yn cyrchu'r arholiad, neu'r asesiad ar-lein, neu'n dynodi eu bod yn bresennol ar gofrestr presenoldeb, mae myfyrwyr yn datgan eu bod yn ffit i sefyll.

2.11 Ni all myfyrwyr honni wedi hynny bod eu perfformiad yn yr asesiad hwnnw wedi ei effeithio gan amgylchiadau neu salwch presennol, heblaw lle mae amgylchiadau neu ddigwyddiadau ychwanegol yn codi, er enghraifft pan fydd myfyriwr yn sâl yn ystod arholiad ac na all barhau i sefyll yr arholiad, neu lle'r oedd eu barn wedi'i amharu ac nad oeddent yn gallu gwneud penderfyniad rhesymegol ynghylch bod yn ffit i sefyll arholiad. Byddai hyn yn 'tynnu'n ôl o fod yn ffit i sefyll'.

2.12 Byddai 'tynnu'n ôl o fod yn ffit i sefyll' fel rheol yn gofyn am dystiolaeth, a rhoddir enghreifftiau ohonynt yn Rhan B: Gweithdrefn.

**Toriad ar Astudio**

2.13 Os yw'r amgylchiadau esgusodol mor ddifrifol fel na all y myfyriwr barhau â'i astudiaethau am y tro, gall wneud cais am doriad ar astudio am gyfnod astudio llawn/gweddill y cyfnod astudio. Ni fydd myfyrwyr yn gallu dychwelyd i astudio ar ganol cyfnod astudio, a rhaid bod yna bosibilrwydd y byddant yn gallu ailgydio yn eu hastudiaethau ar yr un cwrs ar y dyddiad cofrestru ar gyfer y cyfnod astudio dilynol.

2.14 Byddai toriad mewn astudiaethau yn y cyfnod astudio presennol fel arfer yn gofyn am dystiolaeth, y rhoddir enghreifftiau ohonynt yn Rhan B: Gweithdrefn.

**ADRAN A3: MONITRO**

3.1 Bydd sampl o'r holl geisiadau yn cael eu hadolygu bob tymor gan y Pennaeth Profiad a Llwyddiant Myfyrwyr i sicrhau cysondeb ar draws y Brifysgol. Bydd adroddiad yn cael ei ddarparu i'r Grŵp Gwaith Achos Myfyrwyr yn flynyddol, ac yn gyfnodol yn ystod y flwyddyn i'r Pwyllgor Dysgu, Addysgu a Gwella (LTEC). (Gweler hefyd adrannau 8.6-8.8).

[3] Mae'r rheoliad hwn yn berthnasol i arholiadau, profion yn y dosbarth, cyflwyniadau, arfarniadau ymarfer clinigol, profion ymarferol, asesiadau gwaith cwrs a phrosiectau, ond nid asesiadau o berfformiadau llwyfan/perfformiadau wedi'u hasesu mewn cerddoriaeth.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

# RHAN B: GWEITHDREFN

## ADRAN B1: ENGHREIFFTIAU O AMGYLCHIADAU ESGUSODOL

1.1 Mae'r canlynol yn rhestr anghyflawn o'r hyn y byddai'r Brifysgol, fel arfer, yn ei ystyried yn amgylchiadau esgusodol a allai fod wedi effeithio ar eich perfformiad ac na fyddai wedi bod yn bosibl eu hunioni cyn yr asesiadau:

- profedigaeth – marwolaeth perthynas agos/unigolyn arwyddocaol
- salwch neu niwed byrdymor difrifol
- cyflwr iechyd parhaus yn gwaethygu'n sylweddol
- salwch yn ymwneud â beichiogrwydd neu geni plentyn, ond nid beichiogrwydd ei hun (ond gweler hefyd adran B5 5.6)
- amgylchiadau personol/teuluol andwyol sylweddol, gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu annisgwyl am aelod o'r teulu neu ddibynnydd
- problemau ariannol sylweddol, e.e. methdalu
- wedi dioddef, neu'n dyst i drosedd, sydd wedi cael effaith sylweddol
- cystadlu ar lefel ryngwladol, er enghraifft, mewn cystadleuaeth chwaraeon neu ddrama
- larwm tân yn seinio mewn arholiad
- problem dechnegol sy'n atal mynediad at addysgu neu asesu ar-lein
- pryderon diogelu, er enghraifft unigolyn o dan 18 oed neu oedolyn bregus sy'n profi, neu mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso
- ffactorau eithriadol eraill sydd wedi achosi straen sylweddol

1.2 Ni fydd y Brifysgol yn derbyn fel amgylchiadau esgusodol unrhyw sefyllfaoedd y gellid bod wedi disgwyl yn rhesymol i fyfyrwyr eu hosgoi neu iddynt wneud trefniadau ymlaen llaw i fynd i'r afael â'r materion neu weithredu i gyfyngu ar eu heffaith. Ni chaiff yr enghreifftiau canlynol eu hystyried yn amgylchiadau esgusodol:

- amgylchiadau'n ymwneud ag astudio, gan gynnwyys, ond nid yn gyfyngedig i:
  - cyfarpar yn methu, gan gynnwys anawsterau gyda chyfrifiadur/argraffydd (oni bai eu bod yn atal mynediad i addysgu neu asesu ar-lein) a methiant i wneud copïau wrth gefn os bydd gwaith yn cael ei ddwyn neu ei lygru[4];
  - sawl terfyn amser/arholiad yn agos at ei gilydd;
  - llyfrau ar goll;
  - rheoli amser gwael;
  - camddarllen yr amserlen arholiadau a pheidio â bod yn ymwybodol o ddyddiadau neu amseroedd ar gyfer cyflwyno asesiad gwaith cwrs[5];
  - sefyll yr arholiad anghywir;
  - cyflwyno'r asesiad anghywir;
  - straen arferol adeg asesiadau.
- sefyllfaoedd domestig neu bersonol trafferthus nad ydynt yn ddifrifol, er enghraifft: symud tŷ; newid swydd; gwyliau; priodasau; pwysau gwaith arferol; trefniadau teithio'n methu (oni bai bod hyn o ganlyniad i ddigwyddiad mawr); cysgu'n hwyr;
- problemau ariannol cyffredinol;

[4] Dylai myfyrwyr ganiatáu digon o amser i gyflwyno'n electronig neu argraffu unrhyw gyflwyniadau asesu erbyn y terfynau amser gofynnol er mwyn osgoi unrhyw anawsterau.

[5] Bydd y gyfadran yn darparu gwybodaeth glir am y dyddiadau a'r amseroedd hynny, ond mae cyfrifoldeb ar bob myfyriwr unigol hefyd i ofyn am gadarnhad o bob terfyn amser ac arholiad.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

- datganiad honedig o gyflwr meddygol heb dystiolaeth resymol i'w ategu;
- amgylchiadau meddygol y tu allan i'r cyfnod asesu neu'r cyfnod dysgu perthnasol;
- unrhyw amgylchiadau yr oedd modd eu rhagweld a/neu eu hatal;
- mân salwch neu afiechyd, fel annwyd cyffredin, oni bai bod y salwch yn glefyd heintus a allai fod yn niweidiol pe bai'n cael ei drosglwyddo i eraill.
- datgelu amgylchiadau yn hwyr gan fod myfyrwyr o'r farn na allent neu gan nad oeddynt yn teimlo'n gyfforddus yn cyfaddef eu hamgylchiadau i aelod staff heb reswm da (dylai myfyrwyr gysylltu â'r Ganolfan Gynghori a/neu Undeb y Myfyrwyr os oes angen cymorth arnynt i gyfleu amgylchiadau penodol a all effeithio ar eu hasesiadau);
- gwyliau, symud tai neu ddigwyddiadau eraill a gynlluniwyd neu y gellid yn rhesymol fod wedi'u disgwyl;
- mân ddigwyddiadau bywyd, oni bai bod yr amgylchiadau wedi cael effaith anghymesur ar y myfyriwr a fydd yn cael ei bennu gan y Panel Amgylchiadau Esgusodol;
- mân aflonyddwch ar drafnidiaeth;
- defodau crefyddol – ni fydd y Brifysgol yn newid terfynau amser asesu na chyfnodau arholiadau oherwydd gwyliau crefyddol sy'n gysylltiedig â ffydd amrywiol myfyrwyr. Os bydd terfyn amser asesiad yn cyd-daro â gŵyl grefyddol, dylech gynllunio'ch amser yn unol â hynny a chyflwyno unrhyw asesiadau cyn y dyddiad cyflwyno. Er na fydd cyfnodau arholiad yn cael eu symud, cynhelir cyfres o weithgareddau i gefnogi myfyrwyr, pe bai arsylwadau crefyddol (e.e. Ramadan) yn cyd-fynd â chyfnod yr arholiadau. Disgwylir i chi gymryd rhan mewn unrhyw ddefod grefyddol cyn neu ar ôl unrhyw arholiad sydd wedi'i drefnu.

**ADRAN B2: CYFLWYNO CEISIADAU AC AMSERLENNI**

2.1 Dylech geisio gwybodaeth ac arweiniad ar sut i gyflwyno cais gan y Ganolfan Gynghori a/neu'r Ganolfan Gynghori Ar-lein. Mae Undeb y Myfyrwyr ar gael i ddarparu cymorth ac arweiniad hefyd.

2.2 Rhaid cyflwyno pob cais trwy'r System Amgylchiadau Esgusodol neu'r Ganolfan Gynghori Ar-lein, cyn, neu o fewn, pum diwrnod gwaith i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwaith cwrs/dyddiad yr arholiad/asesiad. Yr unig eithriad i hyn yw amgylchiadau esgusodol grŵp/carfan, er enghraifft larwm tân yn seinio yn ystod arholiad. Mewn achosion o'r fath, bydd staff y Brifysgol yn tynnu sylw'r Ganolfan Gynghori at yr achos, i'w ystyried.

2.3 Os ydych chi mor analluog fel nad ydych chi'n gallu llenwi a chyflwyno ffurflen amgylchiadau esgusodol ar yr adeg mae'r amgylchiadau'n digwydd, fe ddylech, lle mae'n rhesymol ac yn bosibl gwneud hynny, gysylltu â'r Ardal Gynghori i amlinellu'r amgylchiadau neu drefnu bod ffrind neu berthynas yn gwneud hynny.

2.4 Fel rheol, ni ystyrir hawliadau amgylchiadau esgusodol mwy na phedair wythnos cyn dyddiad cau asesiad/dyddiad arholiad. Eithriadau i hyn yw lle mae gennych dystiolaeth, ymlaen llaw, o amgylchiadau penodol a fydd yn effeithio am gyfnod penodol, neu lle mae'r dyddiad cau ar gyfer asesiad yn ymwneud â chyflwyno traethawd estynedig neu brosiect mawr.

2.5 Yr unig eithriad i'r amserlenni a nodir yn adran 2.2 wrth wneud cais hwyr am amgylchiadau esgusodol yw, os oes gennych dystiolaeth bod amgylchiadau neu salwch wedi'ch atal rhag cyflwyno'r ffurflen amgylchiadau esgusodol ar amser. Gall enghreifftiau gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, derbyn i'r ysbyty neu'n methu

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

ag ymgysylltu â'r broses fel arall oherwydd salwch (gan gynnwys salwch meddwl).

2.6 Gellir cyflwyno dau fath o amgylchiadau esgusodol ar ôl y dyddiadau cau arferol yn 2.2. 'Amgylchiadau esgusodol hwyr' yw'r rhai a gyflwynir cyn i'ch canlyniadau gael eu cadarnhau gan y Bwrdd Asesu, ac 'amgylchiadau esgusodol Ar ôl y Bwrdd' yw'r rhai a gyflwynir ar ôl i'r Bwrdd Asesu gwrdd a phenderfynu ar eich canlyniadau.

2.6.1 Gellir cyflwyno hawliadau amgylchiadau esgusodol hwyr hyd at 'ddyddiadau cau Hawliad Hwyr' Amgylchiadau Esgusodol', a osodir yn unol â'r byrddau asesu perthnasol ac sydd wedi'u cyhoeddi drwy'r Ardal Gynghori.

2.6.2 Gellid cyflwyno hawliadau amgylchiadau eithriadol ar ôl cyfarfod y bwrdd o fewn 10 diwrnod o ddyddiad cyhoeddi eich canlyniadau, os oes gennych reswm da dros fethu â chyflwyno hawliad cyn y 'dyddiad cau Hawliadau Hwyr' a gyhoeddwyd. Am wybodaeth bellach, cysylltwch â'r Ardal Gynghori. Os ydych wedi cyflwyno hawliad amgylchiadau esgusodol ar ôl y Bwrdd, bydd yr Ardal Gynghori yn eich hysbysu o ganlyniad eich cais ond bydd y Bwrdd Asesu yn eich hysbysu o unrhyw newidiadau i'ch statws o ganlyniad i'r hawliad, lle bo hynny'n briodol.

2.7 Os gwneir cais yn hwyr iawn, efallai y byddwn yn gyfyngedig o ran y camau y gallwn eu cymryd. Er enghraifft, gallai fod yn rhy hwyr i'ch arholiadau gael eu gohirio i'r cyfnod ailsefyll a gallai hyn ohirio'ch astudiaethau.

2.8 Os yw'r brifysgol wedi penderfynu na allwch barhau â'ch astudiaethau ond mae gennych amgylchiadau eithriadol (e.e. problemau iechyd meddwl nad oedd wedi'u deall ynghynt) nad oeddech chi'n gallu eu crybwyll am reswm da yn ystod eich astudiaethau, cewch ail-ymgeisio a bydd eich cais yn cael ei ystyried dan y polisi Derbyniadau.

**ADRAN B3: CYFLWYNO TYSTIOLAETH**

3.1 Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn am dystiolaeth a/neu geisio tystiolaeth amgen neu ychwanegol i gefnogi hawliad ar gyfer amgylchiadau esgusodol er mwyn egluro amgylchiadau/anghenion cymorth neu ar gyfer archwilio sampl. Gellir dirymu canlyniad hawliadau lle na ddarperir tystiolaeth ar gais, neu fod tystiolaeth yn gwrth-ddweud/nad yw'r dystiolaeth yn cefnogi'r amgylchiadau ar gyfer yr hawliad.

**Commented [RJ1]:** Please note, I think there might be a typo in the English version - I've translated this as the following:

The University reserves the right to request evidence **and/or seek alternative** or additional evidence

3.2 Dylai'r dystiolaeth a ddarperir fod yn gopïau o ddogfennau gwreiddiol, a rhaid iddynt gael eu hysgrifennu a'u llofnodi/stampio'n swyddogol, lle bo'n briodol, gan drydydd parti addas ar bapur pennawd. Ni fydd dogfennau wedi eu darparu neu'u llofnodi gan aelodau teulu, ffrindiau neu gyd-fyfyrwyr yn cael eu derbyn.

3.3 Os nad yw'r dystiolaeth wreiddiol yn y Gymraeg neu'r Saesneg, rhaid i chi drefnu ei chyfieithu i'r Gymraeg neu'r Saesneg a darparu dilysiad yn dangos pwy a wnaeth y cyfieithiad a ble.

3.4 Byddai'r enghreifftiau canlynol yn cael eu hystyried yn dystiolaeth dderbyniol (gweler Atodiad 1 hefyd):

- Yn achos afiechyd difrifol person arwyddocaol, datganiad gan weithiwr iechyd proffesiynol.
- Ar gyfer profedigaeth, tystysgrif marwolaeth, ysgrif goffa, trefn

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

gwasanaeth o angladd.

- Yn achos cyflwr meddygol, tystysgrif feddygol neu adroddiad gan weithiwr proffesiynol priodol y mae'n rhaid iddo fod yn benodol a chynnwys dyddiad sy'n berthnasol i'r cais. Rhaid eich bod wedi ymweld â gweithiwr meddygol proffesiynol/gweithiwr proffesiynol priodol yn ystod unrhyw salwch a rhaid i dystysgrifau a roddir gadarnhau dyddiad yr ymweliad. Efallai ni dderbynnir tystysgrif feddygol neu adroddiad gan weithiwr proffesiynol priodol sy'n ôl-weithredol neu wedi'i hôl-ddyddio. O ran cyflyrau meddygol, rhaid bod digon o dystiolaeth o effaith y salwch/sefyllfa ar yr asesiad y mae'r cais am amgylchiadau esgusodol yn ymwneud ag ef.
- Tystiolaeth gan wasanaethau cymorth allanol, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wasanaethau trais domestig, gwasanaethau seicolegol neu o ffynonellau cymorth mewnol fel cynghorwyr iechyd meddwl/cynghorwyr anabledd.
- Mewn amgylchiadau eithriadol, lle na ellir cael tystiolaeth, gellir ystyried derbyn datganiad gennych yn manylu ar yr effaith y mae'r amgylchiadau wedi'i chael.

3.5 Mae gan y Brifysgol hawl i wirio neu gadarnhau unrhyw dystiolaeth a gyflwynir. Os byddwch yn cyflwyno unrhyw dystiolaeth y darganfyddir ei bod yn ffug, bydd ymchwiliad o dan y Rheoliadau a'r Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr yn dechrau.

3.6 Wrth gyflwyno hawliad y gellir gofyn am dystiolaeth gennych ar ei chyfer, gallwch ofyn am estyniad o hyd at uchafswm o 15 diwrnod gwaith neu ohiriad tan y pwynt asesu nesaf heb gosb bellach.[6] Diffinnir y pwynt asesu nesaf fel y cyfnod ailgyflwyno a gadarnhawyd gan y bwrdd asesu dyfarniad a dilyniant perthnasol.

**ADRAN B4: HUNANARDYSTIO**

4.1 Gallwch ohirio i'r pwynt asesu nesaf heb gosb ar gyfer asesiadau ar y diwrnod[7]. Ar gyfer pob asesiad arall, gallwch hunan-ardystio am gyfnod o 5 diwrnod gwaith. Diffinnir y pwynt asesu nesaf fel y cyfnod ailgyflwyno a gadarnhawyd gan y bwrdd asesu dyfarniad a dilyniant perthnasol.

4.2 Rhaid i'r amgylchiadau fod wedi digwydd o fewn 5 diwrnod gwaith cyn dyddiad cau/amser yr asesiad.

4.3 Ni all myfyrwyr hunanardystio yn ôl-weithredol, ar gyfer asesiad a gyflwynwyd eisoes neu ar ôl iddynt gyflwyno ar gyfer arholiad/asesiad.

[6] Er enghraifft, mae cynigion cyntaf yn parhau fel cynigion cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau fel gwaith a gyfeiriwyd.

[7] Er enghraifft, arholiadau, mewn profion dosbarth, cyflwyniadau, arfarniadau ymarfer clinigol, perfformiadau neu waith grŵp.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**ADRAN B5: HAWLIADAU AR GYFER MYFYRWYR SYDD AG ANABLEDD/CYFLWR HIRDYMOR**

**Hawliadau ar gyfer myfyrwyr ag anabledd/cyflwr hirdymor**

5.1 Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gan rai myfyrwyr anableddau a/neu gyflyrau hir-sefydlog; er enghraifft, cyflyrau iechyd meddwl penodol, ffibromyalgia, a chlefyd Crohn's, a all effeithio ar eu gallu i reoli astudiaethau a chyflwyno gwaith academaidd sy'n arddangos eu dysgu o fewn terfynau amser safonol.

**Myfyrwyr sydd â Chynllun Cymorth Unigol (ISP)**

5.2 Caniateir i fyfyrwyr sydd â Chynllun Cymorth Unigol (ISP) yn ei le gyflwyno gwaith cwrs o fewn y cyfnod cyflwyno hwyr o 5 diwrnod gwaith[8], ac ni fydd y gwaith yn cael ei gapio. Nid yw'r cyfnod gras o bum niwrnod yn berthnasol i arholiadau, mewn profion dosbarth, cyflwyniadau, gwerthusiadau ymarfer clinigol, perfformiadau neu waith grŵp.

5.3 Os oes gennych bryderon am derfynau amser asesiadau unigol, nad yw'r addasiad rhagweledol uchod yn mynd i'r afael â hwy, dylech drafod eich amgylchiadau gyda Chynghorydd Anabledd. Os yw'n briodol, bydd "hyblygrwydd o amgylch terfynau amser" yn cael ei ychwanegu fel addasiad rhesymol i'ch Cynllun Cymorth Unigol (ISP).

5.4 Os cewch "hyblygrwydd o amgylch dyddiadau cau" byddwch wedyn yn gallu gofyn am estyniad o hyd at uchafswm o 15 diwrnod gwaith o'r dyddiad cyflwyno gwreiddiol neu ohirio i'r pwynt asesu nesaf heb gosb bellach am asesiadau yr effeithir arnynt oherwydd eich anabledd/cyflwr hirdymor.[9] Bydd angen i chi lenwi ffurflen amgylchiadau esgusodol a nodi bod eich ISP yn cefnogi eich cais. Ni fydd unrhyw dystiolaeth ychwanegol yn cael ei cheisio.

**Myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau hirdymor nad oes ganddynt Gynllun Cymorth Unigol (ISP) [10]**

5.5 Gall myfyrwyr ag anableddau a/neu gyflyrau hirdymor, nad oes ganddynt Gynllun Cymorth Unigol (ISP) ar waith, wneud cais am amgylchiadau esgusodol. Mae'n bosibl mai gyda'u hawliad cyntaf yn unig y bydd angen iddynt ddarparu tystiolaeth ategol mewn perthynas â'u hanableddau a/neu gyflyrau hirdymor.

5.6 Efallai y bydd rhai amgylchiadau lle gallai'r Weithdrefn hon fod yn briodol os oes gennych gyflwr amser cyfyngedig, er enghraifft cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd (gweler hefyd adran B1 1.1).

5.7 Dylech nodi ar y ffurflen amgylchiadau esgusodol eich bod yn fyfyriwr anabl/bod gennych gyflwr hirdymor ac nad oes gennych ISP a'ch bod yn darparu tystiolaeth i gefnogi'ch hawliad.

5.8 Efallai y bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth ategol briodol at ddibenion cyfleoedd cymorth pellach megis mynediad at gyllid Lwfans Myfyrwyr Anabl neu ar gyfer archwilio sampl.- **gweler adran B3**.

---

[8] Er enghraifft, mae cynigion cyntaf yn parhau fel cynigion cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau fel gwaith a gyfeiriwyd.

[9] Ni fydd gwaith a gyflwynir y tu hwnt i'r 5 diwrnod gwaith heb amgylchiadau lliniarol yn cael ei farcio.

[10] neu gyfwerth os yn astudio mewn coleg partner PDC

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

5.9 Byddwch yn gallu gofyn am estyniad o hyd at uchafswm o 15 diwrnod gwaith neu ohirio tan y pwynt asesu nesaf heb gosb bellach am asesiadau yr effeithir arnynt oherwydd eich anabledd/cyflwr hirdymor. [11] Diffinnir y pwynt asesu nesaf fel y cyfnod ailgyflwyno a gadarnhawyd gan y bwrdd asesu dyfarniad a dilyniant perthnasol.

5.10 Bydd eich cais yn cael ei ystyried gan Banel Amgylchiadau Esgusodol ac, os caiff ei gymeradwyo, gall fod am un flwyddyn academaidd neu hyd nes y byddwch wedi cwblhau eich cwrs.

5.11 Os yw eich cais wedi'i gymeradwyo a'ch bod wedi darparu tystiolaeth, ni fydd angen tystiolaeth ategol ar unrhyw hawliadau dilynol oherwydd yr un anabledd/cyflwr hirdymor, a dylech nodi ar y ffurflen amgylchiadau esgusodol eich bod wedi darparu tystiolaeth flaenorol sy'n cefnogi eich cais.

**ADRAN B6: AMGYLCHIADAU SY'N EFFEITHIO AR NIFER FAWR O FYFYRWYR**

6.1 Yn achos digwyddiad/mater mawr sy'n effeithio ar nifer fawr o fyfyrwyr, e.e. tywydd garw, argyfyngau iechyd y cyhoeddus neu streicio, y Cyfarwyddwr o Fywyd Myfyrwyr (neu enwebai) fydd yn ystyried yr effaith ac yn cytuno ar ‘weithredu’ prifysgol gyfan neu, lle bo hynny’n briodol, campws neu gyfadran. Bydd hyn yn cael ei gyfleu i fyfyrwyr trwy sianeli priodol.

6.2 Os oes gennych amgylchiadau penodol sy'n golygu eich bod yn elwa llai nag eraill o'r camau gweithredu cytunedig gan y Cyfarwyddwr o Fywyd Myfyrwyr (neu enwebai), gallwch ddefnyddio'r Weithdrefn hon i wneud hawliad amgylchiadau esgusodol unigol.

**ADRAN B7: FFIT I SEFYLL**

7.1 Wrth gyflwyno asesiad neu gyflwyno'ch hun ar gyfer asesiad, rydych yn datgan eich bod yn Ffit i Sefyll asesiad. Ni allwch honni wedi hynny bod eich perfformiad yn yr asesiad hwnnw wedi ei effeithio gan amgylchiadau neu salwch presennol, ac eithrio mewn amgylchiadau anghyffredin lle mae amodau neu ddigwyddiadau ychwanegol, er enghraifft, pan fydd myfyriwr yn sâl yn ystod arholiad ac yn methu â pharhau i sefyll yr arholiad neu lle amharwyd ar eu barn ac nad oedd modd iddynt wneud penderfyniad rhesymegol ynghylch penderfynu a oeddent yn addas. Lle mai dyna’r achos, dylech gyflwyno hawliad yn gofyn am dynnu datganiad Ffit i Sefyll asesiad.

7.2 Dylid cyflwyno hawliad amgylchiadau esgusodol i dynnu’n ôl eich bod yn Ffit i Sefyll asesiad, gyda thystiolaeth ategol, cyn gynted â phosibl ac yn unol â'r dyddiadau cau a amlinellir yn Adran B2. Mewn achos o arholiad, os yw hwn wedi cael ei oruchwylio’n ffurfiol, bydd yr Ardal Ymgynghori yn gofyn am gopi o'r Adroddiad Goruchwyliwr Arholiad ar ôl cyflwyno'r hawliad a ddylai ddarparu manylion y sefyllfa.

---

[11] Er enghraifft, mae cynigion cyntaf yn parhau fel cynigion cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau fel gwaith a gyfeiriwyd.
[12] https://advice.southwales.ac.uk/cyngor/a2z/study-information/

7.3 Ar gyfer anawsterau technegol yn ystod asesiadau, dilynwch y canllawiau ar gyfer materion yn ymwneud â TG[12] gan fod y rhain yn sicrhau bod anawsterau'n cael eu cofnodi a'u hadrodd, gan osgoi'r angen am hawliadau amgylchiadau esgusodol ychwanegol. Os ydych chi'n ansicr, cysylltwch â'r Ardal Gynghori.

7.4 Pan fyddwch wedi cyflwyno hawliad amgylchiadau esgusodol ac yn aros am y canlyniad, ni fydd unrhyw gyflwyniad asesu[13] a wnewch yn ystod y cyfnod hwn yn cael ei ystyried yn gyflwyniad ffurfiol nac yn ddatganiad Ffit i Sefyll os caiff yr hawliad ei gymeradwyo wedi hynny. Pan fydd yr hawliad yn cael ei gymeradwyo, byddwch yn cael cyfle i ailgyflwyno'r asesiad heb gosb oni bai eich bod wedi derbyn marc neu adborth, ac os felly caniateir i chi gynnal yr asesiad yn y cyfnod asesu nesaf â'r un ymgais a heb gosb bellach.[14] Diffinnir y pwynt asesu nesaf fel y cyfnod ailgyflwyno a gadarnhawyd gan y bwrdd asesu dyfarniad a dilyniant perthnasol.

## ADRAN B8: YMDRIN Â CHEISIADAU AM AMGYLCHIADAU ESGUSODOL

### Ceisiadau Syml

8.1 Os yw cais am amgylchiadau esgusodol yn un syml, Pennaeth profiad myfyrwyr bydd enwebai yn adolygu'r cais ac yn gwneud penderfyniad yn unol â'r canllawiau cyhoeddedig. Mae enwebai Pennaeth Profiad a Llwyddiant Myfyrwyr, wrth gymeradwyo'r ffurflen, yn awdurdodi'r penderfyniad.

8.2 Bydd sampl o'r holl geisiadau yn cael ei hadolygu bob tymor gan Pennaeth Profiad a Llwyddiant Myfyrwyr i sicrhau cysondeb ar draws y Brifysgol.

### Ceisiadau cymhleth

8.3 Bydd hawliadau'n cael eu cyfeirio at y Panel Amgylchiadau Esgusodol os oes unrhyw amheuaeth ynghylch dilysrwydd yr hawliad neu os yw'r hawliad yn gymhleth neu os yw'n hawliad cyntaf gan fyfyriwr ag anabledd/cyflwr hirdymor lle nad oes Cynllun Cymorth Unigol (ISP) yn ei le.

8.4 Bydd ceisiadau cymhleth yn cael eu hystyried gan Banel Amgylchiadau Esgusodol o leiaf unwaith bob pythefnos.

8.5 Nodir aelodaeth a chylch gorchwyl y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn adran B9. Os bydd y Cadeirydd yn gweithredu, adroddir ar y canlyniad yng nghyfarfod nesaf y Panel Amgylchiadau Esgusodol.

### Monitro a chyfeirio at weithdrefnau eraill

8.6 Mae'n bosibl y bydd angen i'r Ardal Gynghori/Panel Amgylchiadau Esgusodol ystyried ceisiadau amgylchiadau esgusodol blaenorol gennych wrth ystyried unrhyw geisiadau dilynol. Lle bo'r dystiolaeth feddygol a ddarparwyd, neu amlder yr hawliadau yn codi pryderon am eich gallu i astudio, gall y Panel gyfeirio eich achos i'w ystyried o dan y Weithdrefn Cymorth i Astudio.

---

[13] Mae'r rheoliad hwn yn berthnasol i arholiadau, profion yn y dosbarth, cyflwyniadau, gwerthusiadau ymarfer clinigol, profion ymarferol, asesiadau gwaith cwrs a phrosiectau ond nid i asesiadau perfformiad llwyfan/perfformiadau asesedig mewn cerddoriaeth.

[14] Er enghraifft, mae cynigion cyntaf yn parhau fel cynigion cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau fel gwaith a gyfeiriwyd.

8.7 Lle mae'r dystiolaeth feddygol a ddarparwyd, neu amlder yr hawliadau yn codi pryderon am eich ffitrwydd i ymarfer, gellir cyfeirio eich achos i'w ystyried o dan y Weithdrefn Ffitrwydd i Ymarfer. Mae hyn ond yn berthnasol os ydych yn astudio cwrs sy'n arwain at gofrestriad proffesiynol, anodi cychwynnol a/neu bellach a/neu drwydded i ymarfer mewn cyd-destun proffesiynol ac sy'n cael ei nodweddu fel un sy'n canolbwyntio ar wasanaeth/cleient/claf ac wedi'i gyfeirio tuag at gyflawni cymhwysedd proffesiynol a/neu gofrestriad proffesiynol. Gweler y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer.

8.8 Bydd yr Ardal Gynghori yn monitro ac yn adolygu nifer yr hawliadau hunan-ardystio a'r rhesymau drostynt. Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â chi ar ôl i chi gyflwyno o leiaf dau hawliad hunan-ardystio. Bryd hynny, mae'n bosibl y byddwn yn awgrymu/gwneud cais am weithredu pellach.

**ADRAN B9: CYFANSODDIAD A CHYLCH GORCHWYL Y BWRDD/PANEL AMGYLCHIADAU ESGUSODOL**

9.1 Aelodaeth y Bwrdd Amgylchiadau Esgusodol fydd (fel arfer):

- Deuddeg aelod o staff academaidd o bob rhan o'r sefydliad (pedwar o bob cyfadran), a enwebwyd gan y Deon y Gyfadran berthnasol (neu eu henwebeion).

9.2 Aelodaeth y Panel Amgylchiadau Esgusodol fydd (fel arfer):

- Cadeirydd, a fydd yn aelod staff academaidd
- Tri aelod arall o staff academaidd, gydag o leiaf un o gyfadran wahanol (bydd un o'r rhain yn Is-gadeirydd).

Wrth ystyried hawliadau cyntaf gan fyfyrwyr ag anabledd/cyflwr hirsefydlog lle nad oes Cynllun Cymorth Unigol (ISP) yn ei le, mae'r Panel yn cadw'r hawl i ofyn i weithiwr meddygol proffesiynol fynychu'r cyfarfod fel cynghorydd.

Mae gan y Cyfarwyddwr o Fywyd Myfyrwyr (neu enwebai) yr awdurdod i gymeradwyo diwygiadau i gyfansoddiad y panel os oes angen.

Bydd uwch aelod staff o Gyfarwyddiaeth Bywyd Myfyrwyr yn bresennol yn holl gyfarfodydd y Panel i roi cyngor ac arweiniad a sicrhau bod y trafodion yn cael eu cofnodi'n gywir. Yn ogystal, mae'n bosibl y gofynnir i staff eraill fynychu'r cyfarfodydd mewn rôl ymgynghorol, fel y bo angen.

Ni chaniateir i unrhyw aelodau staff academaidd ar y Panel sydd wedi bod yn addysgu, yn goruchwylio neu wedi bod mewn cysylltiad agos â myfyriwr sydd wedi cyflwyno cais am amgylchiadau esgusodol gymryd rhan yn y penderfyniad ynghylch y cais.

9.3 Dyma gylch gorchwyl y Panel Amgylchiadau Esgusodol:

a) Ystyried ceisiadau am amgylchiadau esgusodol yn unol â Rheoliadau Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol.

b) Er mwyn sicrhau bod unrhyw dystiolaeth a ddarperir i gefnogi hawliadau yn cael ei hystyried yn ofalus.

c) Gwneud penderfyniadau ynghylch a ddylid derbyn cais ai peidio, a'r canlyniad

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

priodol ar gyfer unrhyw gais a dderbynnir.

ch) Sicrhau bod ymagwedd gyson a rhesymol yn cael ei mabwysiadu mewn perthynas â phob cais.

d) Rhoi gwybod i'r byrddau asesu priodol am benderfyniadau.

dd) Cyfeirio myfyrwyr, fel y bo'n briodol, i wasanaethau neu reoliadau eraill.

9.4 Cadeirydd y Panel Amgylchiadau Eithriadol sy'n awdurdodi penderfyniad y Panel.

9.5. Rhaid i Fyrddau Asesu dderbyn penderfyniad y Panel Amgylchiadau Esgusodol.

**ADRAN B10: CANLYNIADAU HAWLIADAU AM AMGYLCHIADAU ESGUSODOL**

10.1 Byddwch yn derbyn canlyniad eich hawliad amgylchiadau lliniarol o fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl cyflwyno hawliad wedi'i gwblhau.

10.2 Os yw'ch hawliad wedi'i ohirio neu'n cael ei gwrthod byddwch yn cael esboniad clir am y rheswm dros y canlyniad. Bydd y Ganolfan Gynghori yn cofnodi manylion y materion a ystyriwyd yn ogystal â'r rheswm dros y penderfyniad a wnaed.

10.3 Nid yw'n bosibl dyfarnu marciau ychwanegol i unrhyw fyfyriwr unigol am unrhyw asesiad o ganlyniad i hawliad am amgylchiadau esgusodol.

10.4 Mae canlyniadau posibl am hawliad amgylchiadau esgusodol fel a ganlyn:

- gellir gwrthod y cais
- gellir gohirio'r cais, wrth aros am wybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol
- gellir caniatáu estyniad i'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r asesiad. Yn yr achos hwn, ni ellir defnyddio'r rheoliad 5 diwrnod o ran cyflwyno cais yn hwyr (sy'n ein galluogi chi i gael yr asesiad wedi'i farcio ond wedi'i gapio ar 40% (neu'r marc pasio a ddiffinnir o fewn unrhyw reoliad cwrs-benodol sydd ar waith)) hefyd
- gellir caniatáu i chi ymgymryd â'r asesiad/arholiad yn y cyfnod asesu nesaf fel yr un ymgais a heb gosb bellach[15] diffinnir y pwynt asesu nesaf fel y cyfnod ailgyflwyno a gadarnhawyd gan y bwrdd asesu dyfarnu a dilyniant perthnasol;
- bydd y Bwrdd Asesu Dilyniant a Dyfarniad yn ystyried proffil graddau'r asesiad/modiwl os yw'r cais wedi'i gyflwyno gan grŵp/carfan

10.5 Gall rheoliadau fisa Haen 4 neu reoliadau llwybr myfyriwr gyfyngu ar nifer yr ymgeisiau y gellir eu cynnig i fyfyrwyr rhyngwladol neu fyfyrwyr o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd sydd yma ar fisa Haen 4 neu lwybr myfyriwr a gall gyfyngu ar faint o amser y gallant astudio yn y DU. Os oes gennych chi fisa Haen 4 neu lwybr myfyriwr, dylech geisio cyngor gan y tîm Cyngor Mewnfudo a Rhyngwladol ar sut y bydd hyn yn effeithio ar eich statws mewnfudo.

[15] Er enghraifft, mae ymgeisiau cyntaf yn parhau fel ymgeisiau cyntaf, mae gwaith a gyfeiriwyd yn parhau i fod yn waith a gyfeiriwyd.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**ADRAN B11: GOHIRIO ASTUDIAETHAU**

11.1 Os yw'r amgylchiadau esgusodol mor ddifrifol fel na allwch barhau â'ch astudiaethau am y tro, gallech wneud cais i ohirio eich astudiaethau am weddill y flwyddyn academaidd, os oes posibilrwydd y byddwch yn gallu ailafael yn eich astudiaethau ar yr un cwrs ar y dyddiad ymrestru ar gyfer y cyfnod astudio dilynol.

11.2 Nid yw torri ar draws astudiaethau yn hawl myfyriwr a rhaid ei drafod gyda'ch arweinydd cwrs a fydd yn cynghori ar ddichonoldeb i chi ddychwelyd i'r cwrs ar y cyfle nesaf. Yn ogystal, efallai yr hoffech hefyd drafod eich opsiynau gyda'ch Swyddog Llwyddiant Myfyrwyr.

11.3 Yna rhaid i chi gwblhau'r llwybr 'Cais Myfyrwyr i Dorri ar Draws Astudiaethau' sydd ar gael ar Advice Zone Online. Bydd torri ar draws astudiaethau yn cael ei ystyried gan enwebai Pennaeth y Panel Llwyddiant a Phrofiad Myfyrwyr/Amgylchiadau lliniarol. Efallai y cewch eich cyfeirio at y Tîm Cyngor Ariannol Myfyrwyr/Uned Refeniw sy'n gallu cynnig cymorth a chyngor ynghylch y goblygiadau ariannol.

11.4 Dyma rai enghreifftiau o amgylchiadau a all fod yn rhesymau derbyniol dros ohirio astudiaethau yn ystod y cyfnod astudio presennol:

- amgylchiadau meddygol, damwain neu anabledd (er enghraifft, salwch gwanychol; salwch dros gyfnod hir o amser, h.y., o leiaf pedwar wythnos; torri esgyrn sy'n cyfyngu ar symudedd neu ysgrifennu dros gyfnod hir o amser; problemau iechyd meddwl; triniaeth estynedig yn yr ysbyty; beichiogrwydd neu lawdriniaeth fawr);
- marwolaeth neu afiechyd difrifol perthynas neu ffrind agos, sy'n atal myfyriwr rhag gallu parhau ar ei gwrs
- rhoi genedigaeth
- methdaliad neu broblemau ariannol sylweddol
- problemau personol/teuluol
- ymwneud ag achos cyfreithiol hirfaith
- cyflogaeth, e.e. cynnydd annisgwyl yn y baich gwaith

11.5 Nid yw marciau gwael a/neu fethiant i fynd i'r afael â'r cwrs yn rhesymau derbyniol dros ohirio astudiaethau.

11.6 Rhaid i bob cais am ohirio astudiaethau yn ystod y cyfnod astudio presennol gael ei ategu gan dystiolaeth ysgrifenedig o ffynhonnell annibynnol, h.y. gan drydydd parti priodol a all gadarnhau'r amgylchiadau o safle o awdurdod. Eich cyfrifoldeb chi yw ceisio'r dystiolaeth hon, a'i darparu. Dyma enghreifftiau o dystiolaeth dderbyniol:

- tystysgrif feddygol, gorau oll un sy'n dangos pryd y disgwylir adferiad
- datganiad gan arweinydd crefyddol neu gymunedol
- dogfen swyddogol, er enghraifft, tystysgrif geni neu farwolaeth
- llythyr gan gyfreithiwr
- gwŷs i fynychu'r llys
- adroddiad gan heddwas
- hysbysiad o fethdaliad
- llythyr gan gyflogwr
- contract ar gyfer gwaith (myfyrwyr hunangyflogedig)
- llythyr/tystysgrif feddygol gan Wasanaethau Myfyrwyr

11.7 Nid yw llythyrau gan aelodau o'ch teulu, ffrindiau, tiwtoriaid na chyd-fyfyrwyr yn

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

dderbyniol fel arfer.

11.8 Gellir gohirio astudiaethau am gyfnod o un flwyddyn academaidd ar y mwyaf; ni chaniateir ceisiadau am gyfnod amhenodol. Rhaid i geisiadau i ohirio astudiaethau am flwyddyn academaidd gyfan gael eu derbyn cyn y dyddiad ymrestru ar gyfer y flwyddyn honno[16]. Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y cymeradwyir adnewyddu cais i ohirio astudiaethau.

11.9 Byddwch yn cael gwybod beth yw'r dyddiad y cytunwyd arno ar gyfer dychwelyd ar yr adeg y cymeradwyir y cais i ohirio astudiaethau. Pan fyddwch yn dychwelyd, bydd rhaid i chi gydymffurfio â'r rheoliadau cyfredol, ac nid y rheoliadau a oedd mewn grym pan ohiriwyd eich astudiaethau. Os byddwch yn methu dychwelyd ar yr adeg a gytunwyd, bydd y cais yn cael ei dynnu'n ôl.

11.10 Bydd enwebai Pennaeth Profiad a Llwyddiant Myfyrwyr/y Panel Amgylchiadau Esgusodol, ar ôl cael cyngor gan yr aelod perthnasol o'r staff academaidd, yn penderfynu a fyddwch:

- yn cadw'r marciau a enillwyd ym mhob modiwl yn y sesiwn academaidd hyd at y dyddiad y cytunwyd y gellid gohirio astudiaethau; gall hyn gynnwys marciau ar gyfer asesiadau unigol
- fforffedu'r marciau a enillwyd ym mhob modiwl yn y sesiwn academaidd hyd yn oed os yw'n bosibl y byddai'r marciau wedi arwain at basio modiwlau

Ni chaniateir unrhyw ddewis arall, er enghraifft, cadw rhai marciau ond nid y gweddill.

Bydd yr aelod perthnasol o staff academaidd yn trafod eich amgylchiadau unigol ac effaith y penderfyniad. Os bydd anghytuno rhyngoch chi a'r aelod o staff academaidd, bydd penderfyniad yr aelod o staff academaidd yn derfynol.

11.11 Fel rheol, ni fydd ceisiadau a dderbynnir o fewn chwe wythnos cyn i'r byrddau asesu ddechrau ar eu gwaith yn cael eu hystyried; dylech wneud cais am amgylchiadau esgusodol o dan yr amgylchiadau hyn.

11.12 Os ydych chi'n fyfyriwr rhyngwladol o'r tu allan i'r Undeb Ewropeaidd sy'n astudio ar fisa Haen 4 neu lwybr myfyriwr, bydd y nawdd yn dod i ben. Rhaid i chi adael y DU a gwneud cais newydd am deitheb briodol cyn dychwelyd i astudio.

11.13 Mewn amgylchiadau lle nad oes modd osgoi absenoldeb o fwy nag 15 diwrnod gwaith, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn i chi ohirio eich astudiaethau.

[16] Mae'r dyddiad cofrestru ar gyfer y flwyddyn honno yn cyfeirio at y dyddiad yr oedd disgwyl i fyfyrwyr ymrestru.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

**ADRAN B12: CEISIADAU AM ADOLYGU CANLYNIAD CAIS AM AMGYLCHIADAU ESGUSODOL NEU I OHIRIO ASTUDIAETHAU**

12.1 Mae gennych hawl i geisio adolygiad o ganlyniad cais am amgylchiadau esgusodol neu i ohirio astudiaethau ar y seiliau canlynol.

a) Mae gennych dystiolaeth y bu camgymeriad trefniadol wrth ystyried y cais am amgylchiadau esgusodol / i ohirio astudiaethau a bod hyn wedi'ch rhoi dan gryn anfantais.

b) Mae gennych dystiolaeth newydd a pherthnasol nad oedd ar gael, **am reswm da,** pan gyflwynwyd y cais cychwynnol am amgylchiadau esgusodol / i ohirio astudiaethau. *(D.S. Ni dderbynnir rhesymau personol, teuluol neu ddiwylliannol sensitif fel rheswm da oherwydd y dylid bod wedi tynnu sylw'r Brifysgol atynt pan gyflwynwyd y cais gwreiddiol.)*

c) Gallwch ddangos bod y canlyniad yn afresymol.

ch) Gallwch ddangos bod canfyddiad rhesymol o ragfarn yn ystod y broses.

Ni ddylai'r wybodaeth hon fod ar gael neu'n hysbys i chi pan gyflwynwyd y cais cychwynnol am amgylchiadau esgusodol/i ohirio astudiaethau. Ni fydd gwybodaeth a oedd ar gael ond na chafodd ei darparu gyda'r cais am amgylchiadau esgusodol/i ohirio astudiaethau yn cael ei hystyried yn sail ddilys dros ofyn am adolygiad.

12.2 Ni chewch gyflwyno cais am adolygiad hyd nes i'r cais gwreiddiol am amgylchiadau esgusodol/i ohirio astudiaethau gael ei ystyried.

12.3 Ni chaniateir cyflwyno materion newydd fel rhan o'r cais am adolygiad.

12.4 Rhaid i geisiadau am adolygiad gael eu cyflwyno o fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl i ganlyniad y cais cychwynnol am amgylchiadau esgusodol/i ohirio astudiaethau gael ei hysbysu gan ddefnyddio'r 'Ffurflen Cais am Adolygiad – Amgylchiadau Esgusodol/Gohirio Astudiaethau' a rhaid cynnwys tystiolaeth briodol. Gellir cael y Ffurflenni Cais am Adolygiad yn https://registry.southwales.ac.uk/student-regulations/extenuating-circumstances/ ac yn y Ganolfan Gynghori Ar-lein. Ni dderbynnir ceisiadau am adolygiad oni bai eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion uchod.

12.5 Caiff ceisiadau am adolygiad eu hystyried gan y Peannaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) i benderfynu a oes achos ar gyfer adolygiad, a hynny o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl i'r cais gael ei gyflwyno.

12.6 Os bydd y Peannaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai), ar ôl ystyried y cais am adolygiad, yn dod i'r casgliad:

a) nad yw'n bodloni'r seiliau a nodwyd uchod yn adran 11.1;

b) y cafodd ei gyflwyno ar ôl y terfyn amser o 10 diwrnod gwaith;

c) nad yw'n cynnwys tystiolaeth briodol.

bydd y cais am adolygiad yn cael ei wrthod a bydd y penderfyniad gwreiddiol yn sefyll. Anfonir Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau atoch o fewn 5 diwrnod gwaith.

12.7 Os bydd y Peannaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu enwebai) yn penderfynu bod

y cais am adolygiad yn bodloni un neu ragor o'r seiliau, gellir cymryd y camau canlynol:

a) os yw'r achos yn un syml, caiff ei ystyried gan y Pennaeth Profiad a Llwyddiant Myfyrwyr (neu enwebai); rhoddir ateb i chi o fewn 10 diwrnod gwaith;

b) os yw'r achos yn un cymhleth, caiff ei gyfeirio'n ôl at y Panel Amgylchiadau Esgusodol. Gall y Panel Amgylchiadau Esgusodol gael ei ailffurfio os yw'n briodol; os bydd angen cyfarfod, caiff ei gynnal o fewn 10 diwrnod gwaith o gyfeirio'ch achos. Rhoddir ateb i chi o fewn 5 diwrnod gwaith o benderfyniad y Panel.

**ADRAN B13: SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL (OIA) AR GYFER ADDYSG UWCH**

13.1 Os byddwch yn anfodlon â chanlyniad y weithdrefn hon, gallwch, ar ôl derbyn Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau, gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA).

13.2 Gellir cael manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael gwybodaeth a chyngor pellach gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

**Atodiad 1**
**Tystiolaeth ar gyfer amgylchiadau esgusodol a cheisiadau am adolygiad a gyflwynir o dan sail b)**

| Mae'r tabl hwn yn rhoi syniad i chi o'r mathau o dystiolaeth y bydd angen i chi ei darparu er mwyn cefnogi hawliad amgylchiadau esgusodol. Dylech darparu'r dystiolaeth fwyaf perthnasol i gefnogi'ch hawliad; dylid ceisio cyngor gan yr Ardal Gynghori. | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Llythyr gan weithiwr meddygol proffesiynol neu gwnselydd | Llythyr/tystiolaeth gan weithiwr proffesiynol annibynnol | Tystysgrif marwolaeth | Ysgrif goffa/trefn gwasanaeth | Adroddiad newyddion/cyfryngau | Adroddiad swyddogol gan dyst/adroddiad gan yr heddlu sy'n rhoi gwybodaeth am y drosedd | Llythyr gan fanc/llythyrau dyled |
| Dylai'r holl dystiolaeth gael ei chyflwyno yn Saesneg neu yn yr iaith wreiddiol gan ddarparu cyfieithiad swyddogol ardystiedig | | | | | | | |
| Salwch/damwain ddifrifol | ✓ | ✓ | | | | | |
| Afiechyd difrifol person arwyddocaol neu brofedigaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | |
| Cyflwr iechyd parhaus yn gwaethygu'n sylweddol | ✓ | ✓ | | | | | |
| Salwch sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd neu enedigaeth | ✓ | ✓ | | | | | |
| Amgylchiadau personol/teuluol andwyol sylweddol, gan gynnwys cyfrifoldebau gofalu annisgwyl am aelod o'r teulu neu ddibynnydd | ✓ | ✓ | | | | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Problemau ariannol sylweddol** | ✓ | ✓ | | | | | ✓ |
| **Dioddefwr, neu dyst i drosedd, sydd wedi cael effaith sylweddol** | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | |